Diogelu Data - Caniatâd

Fel eglwys leol, rhaid i chi benderfynu naill ai dilyn Opsiwn A, Opsiwn B neu Opsiwn C, mewn perthynas â hysbysu unigolion am weithgareddau'r eglwys a defnyddio eu data personol fel rhan o waith yr eglwys. Darllenwch y ddogfen hon ochr yn ochr â'r ddogfen 'Rheolau Diogelu Data i eglwysi'.

OPSIWN	FFURFLEN	MANYLION
Opsiwn A	Dim angen ffurflen ganiatâd	Gallwch gyfathrebu drwy'r post ac ar rwydweithiau cymdeithasol. Ni chewch gyfathrebu'n electronig. Mae eich defnydd o ddata personol wedi ei gyfyngu i'r rheolau a nodir yn adrannau 3.1 - 3.5 o'r Rheolau Diogelu Data i eglwysi.
Opsiwn B	Ffurflen 1	Gallwch gyfathrebu drwy'r post ac ar rwydweithiau cymdeithasol. Gallwch gyfathrebu'n electronig gydag unigolion sydd wedi llenwi a dychwelyd Ffurflen 1. Mae eich defnydd o ddata personol wedi ei gyfyngu i'r rheolau a nodir yn adrannau 3.1 - 3.5 o'r Rheolau Diogelu Data i eglwysi.
Opsiwn C	Ffurflenni 2-5	Gallwch gyfathrebu drwy'r post ac ar rwydweithiau cymdeithasol. Gallwch gyfathrebu'n electronig ag unigolion sydd wedi ticio y blwch 'rhoi gwybod i chwi am newyddion, digwyddiadau, gweithgareddau a gwasanaethau'r eglwys' ar Ffurflenni 2-5. Gallwch brosesu data yn unol â'r rheolau yn adran 3.1 - 3.5 o'r Rheolau Diogelu Data i eglwysi. Yn ogystal â hyn, gallwch brosesu manylion am wrandawyr a phlant, a manylion ychwanegol am aelodau, os yw'r unigolion wedi ticio'r blychau perthnasol ar Ffurflenni 2-5.